Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Mesurau arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: adroddiad cynnydd blwyddyn 1

Trosolwg o'r bwrdd iechyd a'r cynnydd a wnaed o dan fesurau arbennig rhwng Chwefror 2023 a Chwefror 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Cefndir

Goruchwylio mesurau arbennig

Beth sydd wedi newid ers i'r mesurau arbennig gael eu cyhoeddi?

Beth sydd angen ei wneud o hyd?

Casgliad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Ar 27 Chwefror 2023, penderfynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol alw **Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru (2014)** i rym, sy'n amlinellu'r broses ar gyfer cymryd camau gweithredu mewn perthynas â phryderon difrifol, a chododd lefel uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i fesurau arbennig. Penderfynodd wneud hyn o ganlyniad i bryderon difrifol am effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant y sefydliad, ansawdd gwasanaethau a chamau i ad-drefnu gwasanaethau, trefniadau llywodraethiant, diogelwch cleifion, trefniadau cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol.

Dyma'r pedwerydd adroddiad cynnydd ers i'r bwrdd iechyd gael ei roi o dan fesurau arbennig. Mae'r **tri adroddiad cyntaf** yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod pob chwarter o'r trefniadau mesurau arbennig presennol.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y daith mesurau arbennig dros y 12 mis diwethaf, gan dynnu sylw at y gwersi a ddysgwyd, y gwelliannau a'r heriau a nodwyd.

# Cefndir

Pan wnaeth y Gweinidog ei phenderfyniad ym mis Chwefror 2023, mesurau arbennig oedd y lefel uwchgyfeirio uchaf yn Nhrefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru (2014). Cafodd **Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio GIG Cymru (2024)** ei gyhoeddi yn gynharach eleni ac mae'n disodli'r canllawiau hyn. Fodd bynnag, mesurau arbennig (lefel 5) yw'r lefel uwchgyfeirio uchaf o hyd ar gyfer sefydliadau GIG Cymru.

Mae'r **fframwaith mesurau arbennig** ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cadwaladr yn amlinellu wyth maes ar gyfer gwella, sy'n ymdrin â'r pryderon a arweiniodd at uwchgyfeirio'r bwrdd iechyd a'i roi o dan fesurau arbennig.

## Goruchwylio mesurau arbennig

Gwnaed gwaith sylweddol i oruchwylio'r mesurau arbennig dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

- fforwm gwella mesurau arbennig deufisol gyda'r bwrdd, a gaiff ei gadeirio gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn bresennol hefyd; mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddwyn y bwrdd i gyfrif am gyflawni'r camau priodol mewn ymateb i'r penderfyniad i uwchgyfeirio i fesurau arbennig
- cyfarfodydd misol rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chadeirydd y bwrdd iechyd; defnyddir y cyfarfodydd hyn i asesu cynnydd yn erbyn amcanion y cadeirydd, gan gynnwys cynnydd yn erbyn cynllun cytûn y bwrdd iechyd ar gyfer ymateb i'r mesurau arbennig
- cyfarfodydd chwarterol o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i geisio sicrwydd ynghylch iechyd meddwl
- bwrdd sicrwydd mesurau arbennig chwarterol o dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr GIG Cymru, er mwyn adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ar gyfer pob cylch 90 diwrnod
- cyfarfodydd rhwng y bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru i olrhain cynnydd gan gynnwys, ymhlith eraill, gyfarfodydd misol ynghylch canser a gofal llygaid; cyfarfodydd ansawdd, cynllunio a chyflawni integredig misol; cyfarfodydd tîm gweithredol ar y cyd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn; a chyfarfodydd cyswllt rheolaidd ynghylch cyllid, ansawdd, gofal a gynlluniwyd a gofal heb ei drefnu
- mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Prif Weinidog wedi ymweld â safleoedd y bwrdd iechyd droeon dros y 12 mis diwethaf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Beth sydd wedi newid ers i'r mesurau arbennig gael eu cyhoeddi?

Cafodd nifer bach o gynghorwyr annibynnol eu contractio i ddarparu cymorth mewn perthynas â chyllid, trefniadau llywodraethiant y bwrdd, cynllunio, ansawdd a diogelwch, ymgysylltu a chyfathrebu, ac iechyd meddwl. Cynhaliwyd cyfres o adolygiadau sy'n cynnwys:

- **adolygiad annibynnol o bryderon a godwyd ynghylch BIPBC sy'n gysylltiedig â gofal cleifion**
- **adolygiad annibynnol o ddiogelwch yng ngwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu BIPBC i gleifion mewnol**
- **adolygiad annibynnol o benodiadau interim i swyddi gweithredol yn BIPBC**
- asesiad o feysydd allweddol o agenda'r gweithlu (‘Adolygiad Arbenigwyr Adnoddau Dynol’)
- **adolygiad annibynnol o swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd**
- adolygiad asesu sicrwydd, gwasanaethau fasgwlaidd
- adolygiad annibynnol o bortffolios y tîm gweithredol
- asesiad annibynnol o ddulliau a phrosesau cynllunio integredig
- caffael a rheoli contractau (dan arweiniad y bwrdd iechyd)
- adolygiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion o adolygiadau iechyd meddwl
- adolygiad Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr o wasanaethau llawfeddygol wroleg
- gwrando ar ddinasyddion, cleifion, staff a phartneriaid
- adolygiad o lwybrau fasgwlaidd rhwng mis Awst 2022 a mis Awst 2023 (ar waith)
- adolygiad dilynol o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol (ar waith)
- **adroddiad dilynol ar effeithiolrwydd y bwrdd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r bwrdd iechyd wedi datblygu ei ymatebion rheoli ei hun i lawer o'r adolygiadau hyn o dan gyfres o themâu. Mae'r **adroddiadau cyhoeddedig a'r ymatebion rheoli cysylltiedig** ar gael ar wefan y bwrdd iechyd.

Mae'r dull thematig a ddefnyddir gan y bwrdd iechyd yn ei alluogi i ymdrin â'r problemau i gyd a mynd i'r afael â gwir achosion y problemau. Nodwyd saith thema:

- data, gwybodaeth a mewnwelediad
- diwylliant
- rheoli risg
- cyfranogiad cleifion, teuluoedd a gofalwyr
- model gweithredu
- llywodraethiant a chydymffurfiaeth sefydliadol
- a chynllunio integredig

Mae'r bwrdd iechyd wedi sefydlu grwpiau cyflawni o dan arweiniad staff gweithredol i sicrhau cysylltedd rhwng pob thema. Bydd angen i'r bwrdd iechyd ddangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn pob argymhelliad ym mhob adolygiad.

## Llywodraethiant, effeithiolrwydd y bwrdd ac archwilio

Dros y 12 mis diwethaf, rhoddwyd pwyslais ar ailadeiladu a sefydlogi'r bwrdd. Yn y gorffennol, mae'r bwrdd wedi gwneud nifer sylweddol o benodiadau interim ond, bellach, mae ganddo gadeirydd, prif weithredwr a dirprwy gadeirydd parhaol, a bydd ganddo'r nifer gofynnol o aelodau annibynnol o fis Mawrth 2024. Bydd hyn yn rhoi'r sefydlogrwydd a'r ffocws sydd eu hangen ar y sefydliad i wella.

Yn dilyn yr adolygiad o swyddfa ysgrifennydd y bwrdd, mae'r gwaith sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethiant y bwrdd wedi datblygu. Mae hyn yn cynnwys:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- mae cylch gorchwyl pob pwyllgor wedi cael ei ddiweddaru a bydd pob pwyllgor yn weithredol o fis Mawrth 2024; mae mesurau arbennig wedi'u hymgorffori ym mhob pwyllgor ac mae gan aelodau annibynnol rôl hollbwysig i'w chwarae i sicrhau bod gofynion y mesurau arbennig yn cael eu bodloni
- mae rhaglen sefydlu newydd wedi cael ei datblygu ar gyfer y bwrdd a chaiff pob aelod annibynnol newydd ei sefydlu drwy'r broses hon
- mae rhaglen datblygu'r bwrdd ar waith, sy'n cynnwys ffocws ar wasanaethau clinigol, ymweliadau â safleoedd, meysydd allweddol fel cynllunio cydnerthedd yn ystod y gaeaf a gafael a chydnerthedd ariannol
- cytunodd y bwrdd ar fframwaith rheoli risg yn ystod ei gyfarfod ym mis Medi 2023, a ategir gan Fframwaith sicrwydd y bwrdd; mae hwn wedi cael ei roi ar waith a chyflwynir adroddiadau i'r pwyllgor archwilio

Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi ei **adroddiad dilynol ar effeithiolrwydd y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddiweddar**. Mae'n disgrifio'r heriau dros y 12 mis diwethaf, yn nodi rhai o'r gwelliannau a wnaed ac yn amlinellu'r gwaith y mae angen ei wneud o hyd. Mae'n nodi:

> “ [mae'r] bwrdd, yn dilyn cyfnod o darfu a chorddi sylweddol yn ystod 2023, mewn sefyllfa fwy sefydlog bellach. Mae Prif Weithredwr parhaol newydd yn y swydd, nid yw’r camweithrediad yn y bwrdd a ddisgrifiwyd yn ein hadroddiad blaenorol i’w weld mwyach ac mae’r berthynas waith ymhlith arweinwyr uwch yn fwy cadarnhaol yn gyffredinol. ”

A bod:

> “ trefniadau’r bwrdd a’r pwyllgorau, o sefyllfa anodd ym mis Chwefror, wedi gwella’n gyson er bod llawer mwy i’w wneud sy’n cynnwys ailsefydlu cyfres lawn o bwyllgorau islaw’r bwrdd a gwella ansawdd sicrwydd a ddarperir ym mhapurau’r bwrdd a’r pwyllgorau. ”

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cadarnhau bod cynlluniau ar waith i recriwtio i weddill y swyddi parhaol er mwyn sicrhau bod gan y bwrdd gapasiti llawn.

Mae dealltwriaeth glir o'r heriau ac mae rhai o'r sylfeini ar gyfer dod yn sefydliad effeithiol ar waith erbyn hyn.

## Llywodraethu clinigol, profiad a diogelwch cleifion

Gwelwyd dull newydd y bwrdd o gynyddu ei welededd ac ymgysylltu mwy â'r cyhoedd yn y Gogledd pan gynhaliodd ei **gyfarfod cyffredinol blynyddol** mewn canolfan gymunedol yn Llandudno. Mae cyfres o sioeau teithiol wedi'u cynnal i sgwrsio â'r cyhoedd er mwyn galluogi pobl leol i alw heibio a rhoi eu barn ar wasanaethau iechyd lleol. Gallai pobl siarad â staff rheng flaen er mwyn dysgu am eu gwaith bob dydd a chyfarfod ag aelodau o'r bwrdd i siarad am gynlluniau'r bwrdd iechyd ar gyfer y dyfodol.

Bu ffocws da ar waith partneriaeth gydag awdurdodau lleol, y trydydd sector a phrifysgolion, ac mae gwaith ymgysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gwella hefyd. Mae hyn i'w weld drwy'r gwaith a wneir ar Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ac Ysbyty Brenhinol Alexandria yn y Rhyl.

Am y tro cyntaf, cafodd **adroddiad (t 28) ar brofiad dinasyddion ei gynnwys yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Ionawr**. Roedd yn cynnwys y themâu allweddol a gododd o'r trafodaethau a'r sgyrsiau hynny, er mwyn galluogi'r bwrdd iechyd i ddysgu ohonynt a gweithredu ar unrhyw faterion a oedd yn dod i'r amlwg.

Mae adolygiad cyflym o drefniadau ymgysylltu clinigol wedi cael ei gwblhau a'i rannu â'r bwrdd fel rhan o'r ymyriad mesurau arbennig. Bydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd yn arwain y ffrwd waith hon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Datblygu'r gweithlu a'r sefydliad

Mae angen gwneud mwy o hyd i sicrhau bod tîm gweithredol parhaol ar waith. Mae cyfarwyddwr llywodraethu corfforaethol wedi cael ei recriwtio ac mae disgwyl iddo ddechrau ar 1 Ebrill 2024. Cynhaliwyd adolygiad o bortffolios gweithredol ac mae'r bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio i lenwi rhai swyddi allweddol.

Ystyriodd y bwrdd yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad o benodiadau interim i swyddi gweithredol yn ystod sesiwn ddatblygu ym mis Medi 2023 a rhannodd **ei ymateb rheoli yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth ym mis Tachwedd 2023**. Mae rheolaethau ynghylch defnyddio penodiadau interim ar lefel uwch wedi cael eu cryfhau. Ym mis Rhagfyr 2022, roedd 41 o staff interim ar lefel uwch ac erbyn mis Ionawr 2024, roedd hyn wedi gostwng i un, sydd wedi arwain at arbed £2.35m ers mis Rhagfyr 2022.

Mae Archwilio Cymru wedi nodi bod “tystiolaeth o well llywodraethu o reolaeth y sefydliad ac asesiadau effaith gwirioneddol ar gyfer pob cais i ymestyn deiliadaeth swyddi interim uwch”.

## Arweinyddiaeth a diwylliant tosturiol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cael cyfres o brif weithredwyr dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cyfrannu at ansicrwydd i staff a datblygiad ymddygiadau sefydliadol a diwylliannol gwahanol rhwng ac o fewn arbenigeddau clinigol a safleoedd.

Mae'r bwrdd wedi gweithio i ddeall maint a graddau'r heriau diwylliannol a chafodd adroddiad ar adolygiad cyflym o drefniadau ymgysylltu ei gwblhau ym mis Medi 2023. Mae adroddiad gwrando ar gleifion, teuluoedd a chymunedau wedi cael ei gwblhau hefyd. Caiff y ddau adroddiad eu hystyried gan y Pwyllgor

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Pobl a Diwylliant newydd.

Mae'r bwrdd iechyd wedi gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Academi Wales, prifysgolion lleol, a sefydliadau eraill GIG Cymru i lansio rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer staff presennol, ynghyd â rhaglenni hyfforddiant wedi'u teilwra ar gyfer staff ar lefelau gwahanol yn y bwrdd iechyd:

- rhaglen datblygu staff gweithredol: rhaglen wedi'i theilwra ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol y bwrdd iechyd sy'n rhoi pwyslais ar arwain systemau strategol a gweithio fel tîm/bwrdd effeithiol
- rhaglen arweinyddiaeth lefel uwch: rhaglen wedi'i theilwra ar gyfer y rhai ar haenau 3 a 5, cyfarwyddwyr y cymunedau iechyd integredig a'r rhai sy'n uniongyrchol atebol iddynt
- trosi i swyddi arwain lefel uwch: ar gyfer y rhai sy'n trosi o rolau gweithredol i rolau uwch-reolwyr fel arweinwyr clinigol, penaethiaid adrannau, metrons, penaethiaid nyrsio, rheolwyr safleoedd clinigol
- rhaglen arwain a rheoli lefel ganolig: ar gyfer rheolwyr lefel ganolig gweithredol sefydledig sy'n awyddus i arwain timau drwy gyfnod o newid ac ansicrwydd
- rhaglen sylfeini arwain a rheoli: rhaglen orfodol ar gyfer pob aelod o staff sy'n newydd i rolau rheoli
- darpar reolwyr pobl

Cymeradwyodd y bwrdd gynnig i lansio a llunio bwriad strategol y sefydliad ar sail diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad yn **ei gyfarfod ym mis Medi 2023**. Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan Michael West a Henry Engelhardt mewn cyfres o weithdai bwrdd ac mae cynlluniau i gynnal cynadleddau arwain â 250 o uwch-arweinwyr.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau a chynllun newid diwylliant ategol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwasanaethau clinigol

Tynnodd y fframwaith mesurau arbennig sylw at nifer o wasanaethau clinigol a oedd mewn sefyllfa fregus o ganlyniad i ansawdd gwael a phrofiadau gwael i gleifion; lefelau staffio a chanlyniadau a pherfformiad o safon isel. Mae'r bwrdd iechyd yn gweithio i wella'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau y gallant ddarparu yn unol â safonau clinigol a bydd y ffocws hwn yn parhau wrth inni symud i gam nesaf y mesurau arbennig.

### Gwasanaethau fasgwlaidd

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei **hadroddiad dilynol ar wasanaethau fasgwlaidd yn y bwrdd iechyd yn dilyn arolygiad dirybudd**. O ganlyniad, **cafodd y gwasanaeth ei isgyfeirio o ‘wasanaeth sydd angen ei wella'n sylweddol’**.

Cynhaliodd Rhwydwaith Clinigol Fasgwlaidd Gweithredol y GIG asesiad annibynnol yn erbyn y cynllun fasgwlaidd. Cafodd yr asesiad hwn ei ystyried wedyn gan Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y bwrdd iechyd a'r bwrdd ac mae ymateb rheoli wedi cael ei gwblhau. Daeth yr asesiad i'r casgliad fod y gwasanaeth fasgwlaidd wedi gwella ers yr adolygiadau blaenorol a'i fod bellach, ym marn yr adolygwyr, yn darparu gwasanaeth llawer mwy diogel. Nododd hefyd fod y llawfeddygon fasgwlaidd yn cydweithio llawer mwy a bod gwaith rheoli cleifion yn cael ei ysgogi gan y tîm amlddisgyblaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu asesiad o nodiadau achos fasgwlaidd, sydd wedi adolygu 40 o lwybrau cleifion a gafodd driniaeth rhwng mis Awst 2022 a mis Awst 2023. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024.

Gwelir gwelliannau o hyd yn y gwasanaeth fasgwlaidd, sy'n adeilad ar yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

adolygiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â theuluoedd ar ôl i **ganfyddiadau'r Panel Ansawdd Fasgwlaidd gael eu cyhoeddi**. Mae'r cynllun gwella gwasanaethau fasgwlaidd yn gynhwysfawr, a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

## Orthopedeg

Ym mis Chwefror 2023, roedd amseroedd aros hir am driniaethau orthopedig ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda 2,472 o lwybrau cleifion orthopedig yn aros dros 104 o wythnosau.

Rhoddwyd cynllun gwella ar waith a chafodd agweddau allweddol ar y cynllun hwn eu profi drwy'r ‘mis perffaith’ orthopedig yn Wrecsam ym mis Mehefin 2023. Cafodd y gwelliannau a nodwyd eu hymestyn i'r safleoedd eraill a phenderfynwyd cynnal mwy o weithgarwch yn Ysbyty Abergele. Mae'r safle hwn wedi arwain y ffordd o ran gweithredu arferion gorau clinigol ac mae bellach yn cynnal nifer cynyddol o driniaethau orthopedig ar yr un diwrnod.

Mae’r amseroedd aros ar gyfer llwybrau orthopedig wedi gwella, gyda 1,172 o lwybrau cleifion yn aros dros 104 wythnos ym mis Rhagfyr 2023, sef gwelliant o 52.5% ers mis Chwefror 2023, y lefel isaf ers Ebrill 2021.

Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ddatblygu'r model ar gyfer orthopedeg yn y dyfodol a chafodd achos busnes i greu canolfan orthopedig yn Llandudno ei gymeradwyo gan y bwrdd yn ei gyfarfod ym **mis Medi 2023** a'i gymeradwyo'n ddiweddarach gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar **23 Tachwedd 2023**. Mae gwaith wedi dechrau ar y ganolfan newydd, a'r dyddiad cwblhau fydd mis Rhagfyr 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Iechyd meddwl

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth iechyd meddwl (gan gynnwys gwasanaethau plant a'r glasoed) yn fregus o hyd, ond cafwyd nifer o arolygiadau AGIC mwy cadarnhaol dros y 12 mis diwethaf, sy'n awgrymu bod y gwasanaeth yn sefydlogi.

Ystyriodd y bwrdd yr argymhellion a wnaed yn yr **adolygiad annibynnol o ddiogelwch yng ngwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu BIPBC i gleifion mewnol** yn ystod sesiwn ddatblygu ym mis Medi a rhannodd **ei ymateb rheoli yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ym mis Hydref 2023**. Cynhaliwyd asesiad allanol arall ym mis Ionawr 2024 i asesu i ba raddau y rhoddwyd yr argymhellion ar waith. Disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024.

Mae’r cynlluniau gwella ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a niwroddatblygiad wedi cael eu datblygu a’u cytuno gan y tîm Gweithredol. Fel rhan o'r broses, cynhaliwyd digwyddiad cynllunio bord gron a gefnogwyd gan arweinwyr cenedlaethol y GIG.

Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi cwblhau adolygiad o adolygiadau iechyd meddwl blaenorol er mwyn pennu i ba raddau y mae argymhellion yr adolygiadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith a'u cwblhau. Disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024.

Mae perfformiad yn erbyn y gwahanol fesurau iechyd meddwl i oedolion wedi gwella, gyda 85.3% o oedolion wedi cael asesiad o fewn 28 diwrnod ym mis Rhagfyr 2023 o'i gymharu â 73.8% ym mis Chwefror 2023, ac 87.6% o oedolion wedi cael ymyriad o fewn 28 diwrnod o'i gymharu ag 84.6% ym mis Chwefror 2023. I bobl o dan 18 oed, mae’r perfformiad yn erbyn rhannau 1a ac 1b o'r mesur iechyd meddwl yn dal yn is na'r targed, ond gwelwyd gwelliannau o'i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gymharu â mis Chwefror 2023.

Plediodd y bwrdd iechyd yn euog i erlyniad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â marwolaeth claf ar ward iechyd meddwl i gleifion mewnol (**North Wales health board fined after failings resulted in woman's death | HSE Media Centre**). Cafodd ddirwy sylweddol. Mae'n hanfodol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod y gwersi sydd i'w dysgu o'r erlyniad hwn yn cael eu hymgorffori ym mhob safle.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cynlluniau gwella ar gyfer gwasanaethau clinigol bregus eraill, ond nid yw'r fersiynau terfynol wedi cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru eto. Rydym yn poeni nad yw'r bwrdd iechyd yn ymateb mor gyflym ag y gallai i rai o'r problemau sy'n wynebu'r gwasanaethau hyn. Un maes sy'n peri pryder penodol yw'r gwasanaeth dermatoleg, sydd wedi dod o dan bwysau sylweddol ers yr haf o ganlyniad i nifer cynyddol o swyddi gwag a heriau recriwtio, yn enwedig yn ardal orllewinol y bwrdd iechyd. Mae anawsterau recriwtio staff parhaol yn golygu bod yn rhaid dibynnu ar staff interim a staff locwm.

Rhoddwyd ateb ymadfer ar waith ar unwaith i leihau'r effaith ar gleifion canser brys i'r eithaf. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar fentrau amseroedd aros ychwanegol ac nid yw'n gynaliadwy. Mae'n rhaid trawsnewid y gwasanaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £200,000 ychwanegol i'r bwrdd iechyd er mwyn sefydlu model tele-dermosgopi a fydd yn helpu i frysbennu cleifion yn gyflymach.

## Trefniadau llywodraethiant a rheolaeth ariannol

Mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno ar gynllun gweithredu cyllid mesurau arbennig a chynllun gweithredu amgylchedd rheolaeth ariannol â Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG. Caiff y rhain eu hadolygu a'u herio er mwyn cefnogi cynnydd a sicrwydd y caiff y cynllun a'r cerrig milltir allweddol eu cyflawni. Mae

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ymchwiliadau yn mynd rhagddynt i nifer bach o staff sydd wedi'u hatal dros dro.

Cymerwyd camau i sefydlogi'r tîm cyllid, ac mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu nodi a'u hailgyfeirio i gefnogi canlyniadau allweddol, gwaith cyfrifyddu technegol, gwaith monitro parhaus ac adroddiadau ar berfformiad. Mae gwaith meincnodi ar swyddogaeth gyllid y bwrdd iechyd wedi cael ei gwblhau a bydd yn llywio'r model gweithredu ariannol yn y dyfodol. Mae camau ar waith i gryfhau capasiti'r uwch dîm arwain cyllid. Mae rhaglen wedi'i diweddaru o hyfforddiant caffael gydag amrywiaeth o weithgareddau yn cael ei chyflwyno yn y bwrdd iechyd.

Mae cynnydd yn cael ei wneud i nodi a gweithredu cynllun arbedion, gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr arbedion a ragwelir gyda hyder, ym mis Rhagfyr 2023.

Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi cynnal adolygiad o drefniadau caffael a rheoli contractau. Mae'r adroddiad, a nododd 24 o gamau gweithredu, wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Archwilio'r bwrdd iechyd a cheir ymateb rheoli i bob argymhelliad. Rhoddwyd pwyslais ar dri maes allweddol:

- amgylchedd rheoli: diwygiadau i'r rheolau sefydlog, y cynllun dirprwyo a'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog wedi cael eu cwblhau a'u cymeradwyo drwy'r weithrediaeth, y Pwyllgor Archwilio a'r bwrdd
- hyfforddiant, cyhoeddi ac ymwybyddiaeth o'r prosesau ar gyfer caffael a chontractau: gofynnwyd i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru lunio a chyflwyno pecynnau hyfforddi i bob swyddog sy'n ymwneud â chaffael, a chynhaliwyd sesiynau â'r holl staff rheng flaen ac aelodau gweithredol
- adrodd ar berfformiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant: lluniwyd adroddiad manwl ar gydymffurfiaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio er mwyn dangos effaith yr amgylchedd rheoli gwell

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd ar alluogi camau gweithredu ers iddo gael ei uwchgyfeirio i fesurau arbennig, fel y dangosir gan y fframwaith cynllunio integredig, y fframwaith perfformiad integredig a'r fframwaith rheoli risg y cytunwyd arnynt i gyd gan y bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023.

Mae fframwaith sefydliad sy'n dysgu wedi cael ei ddatblygu ac wedi cael ei gytuno gan y tîm Gweithredol. Mae adolygiad cynhwysfawr o drefniadau gweithio i wella wedi cael ei gwblhau gan gynnwys digwyddiadau, hawliadau, ymchwiliadau, cwynion a gwersi a ddysgwyd. Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n datblygu system rheoli ansawdd, gan adeiladu ar brofiadau sefydliadau sy'n batrwm i eraill, a disgwylir y fersiwn gyntaf ym mis Mai 2024.

Mae'r tîm gweithredol yn mabwysiadu dull gweithredu cryfach mewn perthynas â pherfformiad, yn unol â'r fframwaith perfformiad integredig a gymeradwywyd gan y bwrdd.

# Cyflawni gweithredol

Mae nifer yr amseroedd aros hir i gleifion wedi lleihau, ar y cam cleifion allanol ac ar y cam trin, ers mis Chwefror 2023. Mae nifer y llwybrau sy'n aros mwy na 52 wythnos am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf wedi gostwng 8.9% rhwng Chwefror 2023 a Rhagfyr 2023. Mae nifer y llwybrau sydd â chyfanswm arosiadau dros 104 wythnos wedi gostwng 23.8% ac mae gostyngiad o 27% wedi bod yn nifer y llwybrau sy'n aros dros wyth wythnos am eu profion diagnostig dros yr un cyfnod.

Mae'r bwrdd iechyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Gweithrediaeth y GIG i leddfu pwysau gofal brys ac i wella profiad cleifion. Fodd bynnag, mae’r perfformiad ar gyfer gofal brys ac argyfwng yn parhau i fod yn her sylweddol.

## Gwelliannau i wasanaethau

Mae llawer o enghreifftiau o welliannau i wasanaethau ac arloesedd a gyflwynwyd gan y bwrdd iechyd dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

- Ysbyty Maelor Wrecsam yw'r cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio **triniaeth newydd**, sef laser arloesol, i gael gwared ar ardaloedd amheus neu diwmorau ar y bledren; mae'r driniaeth yn defnyddio Abledіad Laser Traws Wrethrol (TULA), sef ffordd o archwilio'r bledren gan ddefnyddio camera ar bibell hyblyg denau sy'n defnyddio laser i drin y bledren; bydd hyn yn gwella canlyniadau a phrofiadau pobl
- mae'r bwrdd iechyd wedi cwblhau estyniad Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor Wrecsam, sydd wedi creu mwy o ystafelloedd ymgynghori a thrin ar gyfer cleifion y mae angen gofal brys arnynt;
- mae'r lolfa ryddhau yn Ysbyty Glan Clwyd wedi cael ei gwella ac mae bellach yn gweithio fel canolfan ryddhau lle gall pobl aros am hyd at 24 awr, gan helpu i reoli llif cleifion drwy'r ysbyty a lleihau unrhyw oedi diangen i'r rhai sy'n barod i fynd adref
- dengys canlyniadau arolwg hyfforddiant cenedlaethol diweddar gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol fod mwy na 90% o feddygon dan hyfforddiant yn fodlon ar ansawdd yr oruchwyliaeth glinigol, y profiad a'r addysg y maent yn eu cael yn adran achosion brys Ysbyty Gwynedd; yn yr un arolwg, dyfarnodd meddygon iau mai dyma'r lle gorau i hyfforddi yn y DU hefyd
- y bwrdd iechyd yw'r cyntaf yn y DU i ddefnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial, sef platfform Galen, er mwyn helpu i ddiagnosio canser y fron
- mae uned cymorth anadlol newydd ag wyth gwely wedi agor yn Ysbyty Glan Clwyd i gefnogi cleifion â phroblemau anadlol y mae angen arsylwadau manylach rheolaidd arnynt, ond nad ydynt yn ddigon sâl i fod angen gofal

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dibyniaeth uchel; dyma'r uned cymorth anadlol bwrpasol gyntaf a ddyluniwyd ac a adeiladwyd yng Nghymru yn y cyfnod ar ôl y pandemig ac fe'i dyluniwyd gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig
- mae'r bwrdd iechyd wedi sefydlu Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r gwaith o recriwtio, cadw ac uwchsgilio gweithwyr deintyddol proffesiynol
- agorwyd canolfan ymadfer ar ôl strôc newydd yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y siawns orau bosibl o ymadfer ar ôl cael strôc; dyma'r ail o dair canolfan adsefydlu gymunedol arbenigol newydd i gleifion mewnol sydd wedi agor yn y gogledd; mae'r rhain yn trin cleifion nad oes angen triniaeth strôc arbenigol arnynt mwyach mewn ysbyty acíwt ond y mae angen gofal adsefydlu arnynt na ellir ei ddarparu yn y cartref; agorwyd y ganolfan gyntaf yn Ysbyty Eryri, Gwynedd
- mae dull peilot “profi yn syth” wedi cael ei gyflwyno fel y gall cleifion gael prawf mpMRI yn gynt ar ôl cael eu hatgyfeirio am brofion diagnostig ynghylch amheuaeth o ganser; caiff pobl eu gweld yn gyflymach, ac maent yn cael sgan MRI tua 18 diwrnod ar ôl cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu
- ers lansio **gwasanaeth 111 pwyso 2** y llynedd, mae'r bwrdd iechyd wedi derbyn mwy nag 8,000 o alwadau gan bobl y mae angen cymorth iechyd meddwl brys arnynt; dengys adborth fod 99.3% o alwyr wedi nodi lleihad yn eu sgoriau trallod ar ôl cyswllt ag ymarferwyr llesiant penodedig; mae atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol wedi gostwng 8%

## Beth sydd angen ei wneud o hyd?

Yn ei adroddiad diwethaf, mae Archwilio Cymru wedi nodi'n glir iawn bod llawer o waith i'w wneud o hyd:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

> “…mae rhai heriau sylfaenol yn parhau yng nghyd-destun sefydliad sy’n destun mesurau arbennig. Mae angen gwneud penodiadau parhaol i’r bwrdd cyn gynted â phosibl i sicrhau bod y bwrdd yn cyrraedd ei gapasiti llawn. Mae’n rhaid i waith barhau i ffurfio Tîm Gweithredol unedig ac effeithiol, i ddatrys y problemau personél parhaus yn yr Adran Gyllid, ac i gryfhau trefniadau arweinyddiaeth llywodraethu corfforaethol o fewn y sefydliad. Mae angen i’r gweithgareddau hyn gael eu cefnogi gan gynnydd parhaus â rhaglen datblygu’r bwrdd sy’n ffurfio bwrdd cydlynol ac unedig sy’n cefnogi diwylliant sefydliadol cadarnhaol trwy osod yr “esiampl iawn o’r brig. ”

Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei swyddogaeth oruchwylio a sicrwydd, yn glir bod angen i'r gwelliannau mewn perthynas â chanlyniadau, perfformiad, gwasanaethau clinigol bregus ac ansawdd a diogelwch gael eu cyflawni'n gyflymach. Er bod rhai gwelliannau i'w gweld yn y meysydd hyn, nid ydynt yn ddigon ac nid ydynt bob amser yn gynaliadwy.

Mae'r achosion a amlygwyd gan Grwneriaid EF a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn peri pryder penodol, gan gynnwys methiannau i weithredu'n brydlon gyda'r broses gwyno; gwaith cefnogi a chynllunio strategol annigonol ac aneffeithiol; amseroldeb ymchwiliadau'r bwrdd iechyd a'r ddibyniaeth barhaus ar gofnodion cleifion papur.

Mae crwneriaid y gogledd wedi cyflwyno 25 o adroddiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (Rheoliad 28) i'r bwrdd iechyd ers mis Ionawr 2023, ac mae llawer ohonynt yn amlygu themâu cyson, y mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â nhw. Y themâu yw:

- diffyg cofnod iechyd electronig integredig yn effeithio ar barhad gofal ac ansawdd cynlluniau triniaeth
- oedi yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithio ar allu gwasanaeth ambiwlans Cymru i ymateb yn amserol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- ansawdd ymchwiliadau ac effeithiolrwydd camau gweithredu

Mae'r bwrdd iechyd wedi sefydlu rhaglen ymchwiliadau a dysgu, a'r cyfarwyddwr meddygol yw'r uwch-berchennog cyfrifol enwebedig. Caiff y rhaglen ei goruchwylio'n uniongyrchol gan y prif weithredwr a'r tîm gweithredol ehangach ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae proses uwchgyfeirio glir ar waith er mwyn adolygu a, lle bo angen, wella:

- ansawdd pob ymchwiliad
- ansawdd y gwaith cynllunio camau gweithredu sy'n deillio o ymchwiliad, gan gynnwys trefniadau i dracio camau gweithredu
- tystiolaeth o wersi i'w dysgu yn cael eu hadrodd / eu rhannu / eu rhoi ar waith yn eang

Mae'r bwrdd wedi ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr asesiad mewn perthynas â phryderon a godwyd ynghylch diogelwch cleifion cysylltiedig yn y bwrdd iechyd yn ystod sesiwn ddatblygu ym mis Medi 2023 a rhannodd ei ymateb rheoli yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ym mis Tachwedd 2023.

Nid oes gan y bwrdd iechyd system rheoli ansawdd gadarn ar waith ac mae angen cyflymu gwaith yn hyn o beth.

Er y gwelwyd gwelliannau ym maes llywodraethiant corfforaethol, rhaid gwneud yr un peth ym maes llywodraethu ansawdd a chyflawni gweithredol. Rhaid canolbwyntio ar welliannau yn y ddau faes hyn dros y 12 mis nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd mewn perthynas â'r canlynol:

- system rheoli ansawdd
- mwy o ymwybyddiaeth ac ystyriaeth ar lefel bwrdd o ansawdd a diogelwch gwasanaethau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- gweithrediad effeithiol pwyllgorau'r bwrdd
- data gwell ar lwybrau clinigol, canlyniadau clinigol a phrofiadau cleifion yn cael eu defnyddio i nodi methiannau mewn gwasanaethau ac ysgogi gwelliannau i ansawdd
- cynllunio ansawdd ar gyfer gwasanaethau clinigol
- cynllunio galw a chapasiti
- cyflawni cynlluniau gweithredu
- gwella ansawdd ymchwiliadau i ddigwyddiadau
- ffocws ar gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol
- ymgysylltiad clinigol ac arwain gwelliannau
- diwylliant clinigol gwell
- amseroedd aros byrrach yn y gwasanaethau hynny lle nad yw safonau'n cael eu cyflawni

## Casgliad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi sefydlogi ac wedi dechrau gosod y sylfeini i ddod yn sefydliad cynaliadwy dros y 12 mis diwethaf o dan y trefniadau mesurau arbennig presennol.

Mae'r adolygiadau a gynhaliwyd wedi amlygu gwendidau ac wedi tynnu sylw at feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau pellach. Bydd angen i'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar y rhain. Mae'r camau a'r prosesau a roddwyd ar waith gan y cadeirydd, yr aelodau annibynnol, y prif weithredwr a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn cael effaith a bydd angen gwaith tîm ac arweinyddiaeth effeithiol er mwyn adeiladu ar y rhain dros y 12 mis nesaf.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn heriol a bydd yn cymryd cryn amser i ailadeiladu'r bwrdd iechyd yn llawn. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi cael ei wneud.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/mesurau-arbennig-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-cynnydd-blwyddyn-1-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.